| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG AC ECONOMI |
| **DYDDIAD** | 18 Gorffennaf 2024 |
| **TEITL** | Cyfarfodydd Herio Perfformiad Cyllid |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD** | I enwebu cynrychiolydd i fynychu cyfarfodydd herio perfformiad yr Adran Gyllid |
| **AWDUR** | Bethan Adams, Ymgynghorydd Craffu |

1. Mae cyfarfodydd herio perfformiad yn cael eu cynnal bob yn ail fis (ac eithrio mis Ebrill a mis Awst), fesul maes gwaith adrannau'r Cyngor. Ystyrir diweddariad ar y prosiectau blaenoriaeth sydd wedi eu cynnwys yng Nghynllun y Cyngor, mesurau perfformiad 'dydd i ddydd' ynghyd â'r gofrestr risg.

2. Rhoddir gwahoddiad i gynrychiolwyr y pwyllgorau craffu i fynychu cyfarfodydd dwywaith y flwyddyn.

3. Mae cynrychiolwyr y pwyllgorau craffu yn cael gwahoddiad er mwyn:

   - Cael blas o faint o afael sydd ar faterion perfformiad o fewn yr adrannau unigol.
   - Adnabod, os oes angen, unrhyw faterion perfformiad allai deilyngu sylw mewn pwyllgor craffu ffurfiol maes o law.

4. Disgwylir i'r cynrychiolwyr adrodd yn ôl i'r cyfarfod anffurfiol cyntaf o'r pwyllgor craffu perthnasol yn dilyn y cyfarfodydd hyn.

5. Mae'r Cynghorydd Beth Lawton yn cynrychioli'r Pwyllgor yng nghyfarfodydd Herio Perfformiad Cyllid. Roedd y Cynghorydd Paul Rowlinson yn ogystal yn cynrychioli'r Pwyllgor yn y cyfarfodydd. Yn dilyn ei benodiad yn Aelod Cabinet Cyllid nid yw'n aelod o'r Pwyllgor mwyach. Felly, mae angen enwebu aelod i gynrychioli'r pwyllgor yn ei le.

6. **Gofynnir i'r Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi enwebu aelod i gynrychioli'r pwyllgor yng Nghyfarfodydd Herio Perfformiad Cyllid.**